**P-05-929 Annog y defnydd o 'Cymru' a 'Cymry' wrth gyfeirio atom ein hunain yn y Gymraeg a'r Saesneg**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mair Edwards, ar ôl casglu cyfanswm o 127 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyfeirio at ein gwlad fel Cymru, a'r genedl fel Cymry, yn y Gymraeg a'r Saesneg ym mhob datganiad swyddogol. Mae tarddiad y termau "Wales" a "Welsh" yn cyfeirio atom fel estroniaid a thaeogion yn ein gwlad ein hunain. Mae'n bryd i ni ddiffinio ein hunain yn hytrach na chael ein diffinio gan genedl arall - a symbol o hynny fyddai cyfeirio atom ein hunain fel Cymry a'n gwlad fel Cymru.

**Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Ynys Mon
- Gogledd Cymru